

**Arolygiad Rheoliadau
Ymbelydredd Ioneiddio
(Datguddio Meddygol) (Ile
rhoddwyd rhybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf: Adran Radioleg
Ysbyty Brenhinol
Morgannwg

3 a 4 Tachwedd 2014

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall arall AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	3
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd Profiad y Claf	6
	Cydymffurfiad â'r RhYİ(DM)	7
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	17
	Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol	19
6.	Y Camau Nesaf.....	20

1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolygiad o gydymffurfiaid â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYİ(DM)) 2000 a diwygiadau 2006 a 2011 i'r rheoliadau ar gyfer delweddu diagnostig ar 3 a 4 Tachwedd 2014 yn adran radioleg Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ogystal ag ymweliad dilynol ag Ysbyty'r Tywysog Siarl y mae'r ddau ohonynt yn rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf.

Mae ein harolygiad yn ystyried y materion canlynol yng nghyd-destun y rheoliadau:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cydymffurfiaid â'r RhYİ(DM)
- Rheoli Staff ac Arweinyddiaeth
- Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

2. Methodoleg

Mae 'Arolygiadau RhYİ(DM)' AGIC, yn dethol sefydliad gofal iechyd yn rhan o Raglen Arolygiadau RhYİ(DM) lle rhoddir rhybudd flynyddol.

Rydym yn arolygu dogfennau a gwybodaeth wrth nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gadwyd gan AGIC hyd yma
- Sgyrsiau gyda chleifion, perthnasau a thrafodaethau gyda staff
- Trafodaethau gydag uwch reolwyr y bwrdd iechyd
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiau a gweithdrefnau sy'n ofynnol dan y RhYİ(DM)
- Arsylwadau cyffredinol o amgylchedd y gofal a'r arferion gofal

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau'r gofal y mae cleifion yn eu derbyn. Gall yr arolygiadau hyn dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gwasanaethau a ddarperir.

3. Cyd-destun

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, yr amcangyfrifir sydd tua 289,400 o bobl. Mae'r gwasanaethau hefyd yn ymestyn i bobl sy'n byw yn ardaloedd cyfagos Cwm Rhymni Uchaf, De Powys, Gogledd Caerdydd a Gorllewin y Fro.

Mae'r bwrdd iechyd yn darparu pob math o wasanaeth ysbyty a chymunedol o ddau ysbyty cyffredinol dosbarth a phum ysbyty cymuned.

Mae adrannau radioleg y ddau ysbyty yr ymwelwyd â nhw'n ddi-ffilm ac mae delweddau ac adroddiadau digidol ar gael i glinigwyr ar draws y safleoedd.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn y ddau ysbyty yr un fath ac eithrio meddygaeth niwclear a rhywfaint o waith ymyriadol, a gyflawnir yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn unig. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys:

- Radiograffeg gyffredinol
- Uwchsain
- Tomograffeg Cyfrifiadurol (CT)
- Delweddu Cyseiniant Magnetig (MRI)
- Meddygaeth niwclear
- Bariwm / fflworosgopeg
- Mamograffeg

Fe'n hysbyswyd ar adeg yr arolygiad y cynhaliwyd 45,183 o archwiliadau radioleg cyffredinol yn y brif adran ddelweddu yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, 2133 archwiliad fflworosgopeg, 10,387 archwiliad CT a 175 triniaeth ymyriadol CT, 107 o driniaethau ymyriadol eraill, e.e. angiograffi a stentiau, 462 archwiliad cardioleg, 4,785 archwiliad mamograffeg, 1,000 archwiliad deintyddol, 5,329 archwiliad MRI a 16,578 archwiliad uwchsain.

Fe'n hysbyswyd hefyd bod y Gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am ymbelydredd ìoneiddio yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Ysbyty Cwm Rhondda, Ysbyty Cwm Cynon, Ysbyty Dewi Sant ac Ysbyty George Thomas yn ogystal ag Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Hysbyswyd yr arolygwyr ar adeg yr ymweliad am y weledigaeth yr oedd y rheolwyr wedi ei datblygu ar gyfer yr adran radioleg yn ysbyty Brenhinol Morgannwg o ganolfan ddiagnostig a fyddai'n cefnogi rhwydwaith ehangach o ysbytai.

Hefyd, roedd cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer diweddarau offer a chyfleusterau delweddu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac roedd cynlluniau ar y gweill i'r gwaith hwn gychwyn yn y dyfodol agos.

4. Crynodeb

Cafodd yr arolygiad groeso da gan dîm rheoli'r adran a fabwysiadodd agwedd agored a didwyll at yr ymweliad. Gofynnwyd am gyngor yn ymarferol, ac fe'i gwerthfawrogwyd, yn ogystal â beirniadaeth adeiladol a ddarparwyd ar y pryd.

Cawsom groeso cadarnhaol gan y staff a'r cleifion a gynigodd adborth ar nifer o faterion hefyd. Ar ddiwedd yr arolygiad, darparwyd adborth gennym ar ein prif ganfyddiadau a'n hargymhellion allweddol. Bydd y bwrdd iechyd yn cyflwyno cynllun gwella fel ymateb i'n canfyddiadau.

Er ein bod yn fodlon nad oedd unrhyw bryderon diogelwch mawr, roedd yn siomedig canfod mai prin fu'r cynnydd o ran nifer yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad RhYİ(DM) ym mis Gorffennaf 2012.

O ran cydymffurfiad â'r RhYİ(DM), roedd un diffyg cydymffurfiad arwyddocaol yn ymwneud â'r diffyg cofnodion hyfforddiant. Amlygwyd hyn yn y gorffennol ac er bod rhai camau gweithredu ar y gweill yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, nid oeddent wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth o unrhyw gynnydd o ran yr argymhelliad hwn yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Problem arall o ran cydymffurfiad â'r RhYİ(DM) oedd diffyg eglurder o ran hawl, yn yr adran radiolog ac mewn adrannau eraill.

Adolygwyd gweithdrefnau'r cyflogwr ym mis Mawrth 2013 a disgwyliwyd iddynt gael eu hadolygu eto ym mis Mawrth 2014. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi digwydd ac nid oedd y polisi cyffredin, a adolygwyd ym mis Mawrth 2014, wedi cael ei gymeradwyo. Roedd yn siomedig nad oedd proses gadarn ar waith ar gyfer rheoli ac adolygu dogfennau.

Gwnaed nifer o sylwadau o ran gweithdrefnau a rheoliadau unigol a amlinellir yn y ddogfen. Darperir argymhellion manwl hefyd.

5. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Canfuwyd gennym yn gyffredinol bod cleifion yn teimlo bod ansawdd eu profiadau wrth ymweld â'r adran yn dda. Derbyniwyd adborth cadarnhaol am y staff a'u hagwedd, ond dywedasant y gellid fod wedi gwella cyfathrebu – yn enwedig am hyd amseroedd aros. Dylai'r adran ystyried sut y rhennir gwybodaeth am hyd arosiadau gyda chleifion.

Cawsom sgysiau â nifer o gleifion a/neu eu perthnasau yn ystod ein harolygiad yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg am eu profiadau wrth ymweld â'r adran.

Dywedodd y cleifion yn gyffredinol eu bod o'r farn bod yr adran yn lân ac yn daclus. Fodd bynnag, dywedodd un claf ei fod yn meddwl bod y cadeiriau yn yr ystafell aros yn flêr ac wedi gwisgo.

Dywedodd yr holl gleifion y siaradwyd â nhw bod y staff yn brysur iawn ond eu bod yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt er hynny. Fodd bynnag, dywedodd un unigolyn ei bod yn teimlo eu bod yn arbennig o brin o staff arbennig ar ddiwrnod yr ymweliad. Dywedodd tri o'r ymatebwyr eu bod wedi bod yn aros am fwy nag awr a dywedodd un unigolyn ei bod yn meddwl y byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai'r staff wedi hysbysu'r cleifion tua pha mor hir fyddent yn aros.

Dywedodd pawb i ni siarad â nhw eu bod wedi dod o hyd i'r ffordd i'r adran yn rhwydd a bod yr arwyddion yn dda.

Hefyd, dywedodd un claf arall bod y peiriannau sychu dwylo yn y toiledau'n eithriadol o araf ac nad oedd cyfleusterau sychu dwylo eraill.

Cydymffurfiad â'r RhŶİ(DM)

Dyletswyddau'r Cyflogwr

Mae'r diffiniad yn y RhŶİ(DM) yn nodi bod "cyflogwr" yn golygu unrhyw berson naturiol neu gyfreithlon sydd, yng nghyswllt masnach, busnes neu fenter arall, yn cyflawni (ac eithrio fel gweithiwr cyflogedig), neu'n cyfarwyddo eraill i gyflawni, datguddiadau meddygol neu agweddau ymarferol, mewn gweithfa radiolegol benodol'.

Ceir dogfen bolisi ar waith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, ond nid yw'n nodi'n eglur pwy yw'r cyflogwr ac mae'n aneglur sut y caiff y cyfrifoldebau eu dirprwyo i bersonél eraill yn y sefydliad.

Mae'r Cyfarwyddwr Therapïau a gwyddor iechyd (sy'n cynnwys yr adran radioleg) yn atebol i'r Prif Weithredwr yn uniongyrchol a hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd. Er bod y polisi yn esbonio swyddogaethau unigolion o ran ymbelydredd ïoneiddio, nid yw'r ffordd y mae dirprwyo cyfrifoldeb yn gweithio yn eglur.

Argymhelliad

Mae angen i'r ddogfen bolisi nodi'n eglur pwy yw'r cyflogwr ac egluro sut mae dirprwyo cyfrifoldebau'n gweithio o ran RhŶİ(DM).

Gweithdrefnau a Phrotocolau

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr fod â gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith.

Er bod dogfen bolisi gyffredin ar waith, mae angen gwneud rhagor o waith arni i sicrhau ei bod yn addas at y diben ac wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd yn brydlon. Dylai'r uwch reolwyr osod esiamp a dangos eu hymrwymiad i fodloni'r gofyniad hwn. Mae angen i'r staff fod yn ymwybodol ohoni ac yn gyfarwydd â'i chynnwys. Roedd gweithdrefnau cyflogwyr fel sy'n ofynnol dan y RhŶİ(DM) hefyd ar waith a hefyd yn berthnasol i bob un o'r chwe safle yn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, mae angen eu hadolygu a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae gan y bwrdd iechyd Bolisi Diogelwch Ymbelydredd gyffredin ar waith ar gyfer pob safle o'r enw 'Medical Use of Ionising Radiation'. Adolygwyd y polisi hwn yn unol ag un o'r argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad RhŶİ(DM)

blaenorol yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn 2012. Ysgrifennwyd y ddogfen ym mis Mawrth 2014 ond nid oedd wedi'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd eto. Mae angen symleiddio ac egluro'r ddogfen ymhellach o ran materion fel pwy yw'r cyflogwr a'i gyfrifoldebau, gan gynnwys dirprwyo dyletswyddau. Dylid amlinellu hyn yn eglur yn rhan o'r gweithdrefnau ysgrifenedig i sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u hegluro ac yn cael eu cyflawni'n ymarferol. Mae angen i ofynion hyfforddiant a restrir yn Atodiadau A-C gwmpasu pob deiliad dyletswydd ac mae angen eu diweddarau, eu hehangu a'u hegluro.

Roedd yr holl weithdrefnau cyflogwr a oedd ar waith wedi cael eu cymeradwyo ym mis Mawrth 2013 a disgwyliwyd iddynt gael eu hadolygu ym mis Mawrth 2014 ond nid oedd unrhyw dystiolaeth y cynhaliwyd unrhyw un o'r adolygiadau.

Mae rhai o'r trafodaethau ar weithdrefnau unigol yn cynnwys:

Gweithdrefn Cyflogwr 11 (EP11) Prin yw gwerth lleihau'r tebygolrwydd a'r maint gan nad yw'r pwyntiau a restrir yn y weithdrefn gan gynnwys dadansoddi gwrthodiadau, archwiliad rheolaidd o weithdrefnau a hyfforddiant offer yn cael eu cyflawni. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynnydd o ran yr argymhelliad a wnaed yn yr arolygiad blaenorol o ran dadansoddi gwrthodiadau, ac nid oedd unrhyw dystiolaeth chwaith o unrhyw newid i'r ffordd y maent yn cofnodi dogn mewn radiograffeg gyffredinol.

Roedd Gweithdrefn Cyflogwr 5 (EP5), o'r enw Sicrhau Ansawdd, yn ymwneud bron yn gyfan gwbl ag offer. Mewn cyd-destun rheoleiddio, fodd bynnag, mae hyn yn ymwneud â gofynion IRR99 ac yn cyd-fynd â hwn, yn hytrach na'r RhYI(DM). Esboniwyd gennym y dylai'r gweithdrefnau ymwneud â phethau fel sicrhau rheolaeth dogfennau, awdur a dyletswyddau adolygu dan y RhYI(DM). Gellid hefyd disgrifio'r broses ar gyfer adolygu a chadarnhau, ynghyd ag amserlenni, yn y ddogfen bolisi gyffredin er mwyn sicrhau bod pawb yn eglur am yr hyn a ddylai ddigwydd a phryd.

Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod proses eglur ar waith ar gyfer sicrhau bod staff yn cael eu hysbysu am unrhyw weithdrefnau newydd neu wedi'u diweddarau. Fe'n hysbyswyd bod proses darllen a llofnodi ar waith, ond fe'n hysbyswyd hefyd y bydd y staff yn eu darllen ond anaml y byddant yn llofnodi. Nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig felly bod unigolyn sy'n gweithio yn yr adran yn ymwybodol o ddiweddariadau neu newidiadau a wneir.

Canfuwyd o archwilio'r rhestr o brotocolau sydd ar waith, nid oedd rheolaeth dogfennau ar waith ar gyfer rhai ohonynt a bu'n rhaid i ni ofyn beth roedd eraill yn ymwneud ag ef gan nad oeddent yn eglur.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, trafodwyd y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol a oedd wedi'u cynnwys yn rhan o'r wybodaeth a gyflwynwyd i AGIC cyn yr

arolygiad. Nid oedd yn eglur i'r tîm arolygu beth oedd eu diben. Nid oedd y tîm rheoli'n gallu esbonio beth oeddent, pryd roeddent wedi cael eu hysgrifennu na phrys neu os y'u defnyddiwyd.

Argymhellion

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd Adolygu'r Polisi Cyffredin i:

- **Symleiddio'r cynnwys yn y gweithdrefnau cyflogwr**
- **Cael gwared ar ailadrodd**
- **Sicrhau y caiff ei gymeradwyo'n brydlon**
- **Ailfformatio i sicrhau ei fod yn rhwydd ei ddefnyddio a'i deall**

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd Adolygu'r Gyfres o Weithdrefnau Cyflogwr sy'n sail i'r polisi ehangach er mwyn sicrhau eglurder ac addasrwydd at y diben

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd Fodloni'r Argymhelliad a wnaed yn yr arolygiad blaenorol o ran dadansoddi gwrthodiadau yn rhan o reoli ansawdd

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd Egluro Diben y Gweithdrefnau Gweithredu Safonol, Adolygu a Diweddarau eu cynnwys a sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u swyddogaeth

Hysbysiadau am Ddigwyddiadau

Mae'r RhYÍ(DM) yn nodi, lle bu digwyddiad pan fo unigolyn, wrth dderbyn datguddiad meddygol, wedi bod yn agored i ymbelydredd ïoneiddio llawer mwy na fwriadwyd, y dylai'r sefydliad gofal iechyd ymchwilio iddo a hysbysu'r awdurdod priodol (AGIC).

Mae'n ymddangos bod proses eglur ar waith ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau. Yr hyn a oedd yn aneglur, fodd bynnag, oedd a oedd y staff yn deall hyn.

Disgrifiwyd y broses ar gyfer hysbysu am ddigwyddiadau gan y tîm rheoli ac fe'i cefnogir gan weithdrefn gynhwysfawr, ond nid oedd yn eglur a oedd staff yn yr adran yn deall hon.

Yn y trafodaethau i ni eu cael gyda'r staff, nid oeddent yn gallu disgrifio sut y rhennir yr hyn a ddysgir o ddigwyddiadau gyda nhw.

Argymhelliad

Mae angen i'r Bwrdd lechyd adolygu sut mae polisïau newydd neu ddiwygiedig yn cael eu cyfathrebu i'r staff er mwyn sicrhau eu bod wedi eu darllen a'u deall.

Mae angen i'r Bwrdd lechyd ystyried sut mae'r broses o rannu hyn a ddysgir gyda staff yn dilyn digwyddiad yn digwydd a chofnodi hyn mewn EPau.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflogwr nodi lefelau cyfeirio diagnostig (DRL) ar gyfer archwiliadau diagnostig radio gan ddatgan na ddisgwylir i gleifion fynd y tu hwnt i'r rhain pan ddilynir arfer da a normal o ran perfformiad diagnostig a thechnegol.

Roedd yr holl broses o nodi DRLau yn destun pryder. Argymhellodd yr adroddiad blaenorol yr angen i nodi DRLau priodol ar unwaith. Mae rhai DRLau lleol wedi'u cwblhau ond dangosodd trafodaethau gyda'r tîm rheoli bod ganddynt bryderon ynghylch nifer i gleifion sy'n mynd y tu hwnt i'r lefelau hyn yn gyson ac a yw'r DRLau hyn yn briodol.

Fe'n hysbyswyd bod yr adran yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn gweithio'n unol â DRLau Lleol a Chenedlaethol. Roedd dwy o'r ystafelloedd cyffredinol yn dal i weithio'n unol â DRLau Cenedlaethol a sefydlwyd PACS Fuji newydd ym mis Gorffennaf 2013 ac felly roeddent yn dal i weithio'n unol â'r lefelau Cenedlaethol. Mae angen cynnal archwiliad dognau yn y ddwy ystafell hyn. Cedwir llyfrau log ar gyfer cofnodi pan fydd cleifion yn mynd y tu hwnt i DRLau yn gyson ac roedd yn ymddangos bod pob un yn ymwneud â chleifion 'mwy' a ffactorau datguddio uwch, ac felly nid oedd yn eglur i'r staff a oedd y DRLau lleol a nodwyd yn briodol ar gyfer y cohort cleifion.

Cadarnhaodd y tîm hefyd nad oedd unrhyw DRLau Pediatrig wedi'u nodi er bod hwn yn argymhelliad y disgwyliwyd iddo gael ei fodloni erbyn mis Rhagfyr 2012.

Argymhellion

Mae angen i'r Bwrdd lechyd adolygu'r DRLau lleol (gyda RPA) a sefydlwyd ac egluro dealltwriaeth staff ynghylch hysbysu am achosion o fynd y tu hwnt i DRLau yn gyson.

Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau bod Gweithdrefn Cyflogwr 7 (EP7) yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol a chynnwys eglurhad o ran hysbysu am achosion o fynd y tu hwnt i DRLau yn gyson.

Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu DRLau pediatrig yn unol â'r argymhelliad a wnaed ym mis Gorffennaf 2012

Dyletswyddau Ymarferwyr, Gweithredwyr ac Atgyfeiriwr

Hawl

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i ddeiliaid dyletswyddau fod â hawl, yn unol â'r gweithdrefnau cyflogwr, i'r tasgau maent yn eu cyflawni.

Nid oedd y broses hawl a dirprwyo pwy all roi hawl i ddeiliaid dyletswyddau yn ymddangos yn eglur yn y gweithdrefnau ac adlewyrchwyd hyn mewn trafodaethau gyda'r staff, lle'r oedd rhywfaint o ddryswch o ran pa swyddogaeth deiliad dyletswydd yr oeddent yn ei chyflawni.

O'n trafodaethau gyda'r staff ar adeg yr ymweliad, roedd yn amlwg nad oedd yr holl staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel deiliaid dyletswyddau. Disgrifir hawl fesul grŵp yn y weithdrefn hawl (EP2), ond nid yw pob grŵp wedi'i gynnwys ac nid yw cwmpas eu harfer yn amlwg. Nid oedd unrhyw sôn am radiograffwyr adrodd yn yr hawl gweithredwr yn y weithdrefn. Derbyniwyd gan y tîm radioleg bod y maes hwn yn dal i gael ei fireinio.

Cyfeiriwyd at Atodiad A yn y weithdrefn ond nid oedd wedi'i amgáu â'r ddogfen a gyflwynwyd. Rhoddwyd hwn i'r tîm yn ddiweddarach yn y diwrnod ac roedd yn ymddangos ei fod yn cynnwys yr hawl a'r cymwyseddau i unigolion. Fodd bynnag, nid oedd y ffurflen hon wedi'i chwblhau ar gyfer staff a dim ond enghraifft o'r ffurflen i'w defnyddio oedd hi.

Mae'r hawl ar gyfer ymarferwyr yn nodi bod gan bob radiograffydd hawl i bob math o radiograffeg gyffredinol yn ogystal â hawliau penodol fel y diffinnir yn Atodiad A, hawl deiliad dyletswydd unigol, nad yw wedi'i gwblhau eto.

Argymhelliad

Mae angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu'r weithdrefn hawl ac mae angen i'r staff ddeall eu hawl a'u cwmpas arfer unigol.

Atgyfeiriwr

Mae'r RhYŷ(DM) yn nodi mai gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yw atgyfeiriwr sydd â hawl yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr i atgyfeirio unigolion i ymarferwr ar gyfer datguddiadau meddygol.

Roedd meini prawf atgyfeirio (iRefer) wedi cael eu gwneud ar gael ar draws yr Ymddiriedolaeth ers yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur o drafodaethau â'r tîm rheoli sut y byddai Ymarferwr Cyffredinol newydd yn cael

gafael ar y wybodaeth hon. Nid oedd yn eglur chwaith pwy na sut y byddai hyn yn cael ei gyfathrebu.

Trafodwyd y mater o atgyfeirwyr anfeddygol ar ddiwrnod yr ymweliad. Mae'r weithdrefn yn nodi mai'r Cyfarwyddwr Radioleg Clinigol sy'n rhoi hawl i'r grŵp hwn. Trafodwyd sut yr ystyrir bod atgyfeirwyr anfeddygol yn gymwys i gyflawni eu cwmpas arfer o fewn yr Ymddiriedolaeth. Gofynnwyd i weld tystiolaeth o hyfforddiant cymhwysedd lleol i ymarferwyr nyrsio yn ED fel enghraifft. Fodd bynnag, ni chynhyrchwyd unrhyw gofnodion.

Argymhellion

Mae angen i'r Bwrdd lechyd roi proses gadarn ar waith i sicrhau bod atgyfeirwyr yn ymwybodol o'r meini prawf atgyfeirio. Mae angen cofnodi'r weithdrefn hawl ar gyfer atgyfeiriwyr anfeddygol yn eglur a rhoi prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod y tîm rheoli'n ymwybodol o'r broses ac y gallant gynnig tystiolaeth ei bod yn cael ei chyflawni'n briodol.

Cyfiawnhad o Ddatguddiadau Meddygol Unigol

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i gyfiawnhau ac awdurdodi pob datguddiad meddygol cyn y datguddiad. Yr ymarferwr sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r datguddiad meddygol. Y ffordd y gellir dangos y dangoswyd cyfiawnhad yw awdurdodiad a gall yr ymarferwr ei roi neu, lle defnyddir canllawiau cyfiawnhau, gweithredwr.

Roedd yn ymddangos bod rhywfaint o ddryswch rhwng arfer yn yr adran a'r atebion yn y ffurflen hunanasesu o ran cyfiawnhau ac awdurdodi a gweithredwyr yn defnyddio canllawiau i awdurdodi datguddiadau.

Roedd y ffurflen hunanasesu'n nodi bod gweithredwyr yn awdurdodi'n unol â chanllawiau ac y defnyddir i Refer, cyhoeddiad a gynhyrchwyd gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr, fel canllawiau cyfiawnhad yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Esboniwyd bod cyfiawnhad yn weithgaredd deallusol ac mai dyna brif swyddogaeth yr ymarferwr. Wrth gyfiawnhau datguddiad, dylid rhoi pwys priodol i faterion fel delweddu blaenorol, hanes meddygol, oedran, statws beichiogrwydd, budd disgwylidig h.y. a fydd triniaeth yn cael ei haltro ac ati.

Bu trafodaethau pellach i esbonio pam na ellir defnyddio i Refer fel canllawiau cyfiawnhau. Mae'n rhaid i ganllawiau cyfiawnhad/awdurdodi gael eu cynhyrchu gan ymarferwr penodol (y radiolegydd arweiniol yn aml, ond nid bob amser). Yr unigolyn sy'n cynhyrchu'r canllawiau hyn sy'n cymryd cyfrifoldeb am unrhyw ddatguddiad sy'n cael ei awdurdodi gan ddefnyddio'r canllawiau hyn h.y. hwn

yw'r ymarferwr. Mae'n rhad diffinio'r awdur a'r dyddiadau adolygu/diwygio yn eglur. Cyhoeddir i Refer gan Goleg Brenhinol y Radiolegwyr – ni ellir nodi ymarferwr penodol i gymryd cyfrifoldeb am ddatguddiadau meddygol unigol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg o'r cyhoeddiad hwn.

Daeth yn eglur yn dilyn trafodaeth â'r radiograffydd uwcharolygol gweithredol nad oes unrhyw weithredwyr yn awdurdodi'n unol â chanllawiau yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Defnyddiwyd y term 'fetio' hefyd yn y ffurflen hunanasesu i esbonio'r dystiolaeth o sut y caiff datguddiadau eu cyfiawnhau. Nid oedd yn eglur beth oedd y term fetio'n ei olygu yn yr adran radioleg – pa un a oedd yn golygu amserlennu, protocolio, cyfiawnhau neu awdurdodi'n unol â chanllawiau.

Gofynnwyd i'r gweithdrefnau egluro'r broses o benderfynu sut mae staff yn ymwybodol bod archwiliad wedi cael ei gyfiawnhau a sut mae staff yn nodi'r ymarferwr ar gyfer archwiliad.

Argymhelliad

Mae angen i'r Bwrdd lechyd egluro'r hyn y mae'r defnydd o'r term 'fetio' yn ei olygu fel y'i nodir yn y ffurflen hunanasesu yng nghyd-destun y weithdrefn cyflogwr

Manylion Adnabod

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i allu adnabod yr unigolyn a fydd yn cael ei ddatguddio i ymbelydredd ìoneiddio yn gywir.

Diweddarwyd y weithdrefn i gynnwys sefyllfaoedd fel sy'n ofynnol yn dilyn yr arolygiad blaenorol. Mae angen gwneud rhagor o waith, fodd bynnag, i ddatblygu ac egluro fformat y weithdrefn.

Wrth adolygu'r weithdrefn, mae'r tîm wedi cynnwys sefyllfaoedd lle na ellir defnyddio dull adnabod syml yng ngweithdrefn adnabod y claf. Pan holwyd y staff, roeddent yn eglur am bwy i'w holi a'r hyn i'w wneud os nad yw'r swyddog meddygol ar gael yn y theatr, ond nid oedd yn eglur o drafodaeth bellach gyda'r rheolwyr o'r hyn sy'n digwydd o ran y theatr ac i bwy mae'r radiograffwyr yn gofyn i nodi'r claf yn y sefyllfa hon. Esboniwyd pwysigrwydd sicrhau bod y weithdrefn yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn ymarferol ar adeg yr ymweliad. Roedd yn gadarnhaol, fodd bynnag, y gwnaed cyfeiriad yn y weithdrefn at ddiogelu pe bai hyn yn ofynnol.

Argymhelliad

Mae angen i'r Bwrdd lechyd wneud rhagor o waith i sicrhau bod eglurder o ran yr hyn sy'n digwydd yn y theatr yng nghyswllt adnabod cleifion ac i sicrhau bod yr holl staff yn eglur am bwy y dylent ei holi.

Menywod mewn oed i gael plant

Mae'r RhYI(DM) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau ar gyfer holi menywod mewn oed i gael plant i ddarganfod a yw'r unigolyn yn feichiog neu a allai fod.

Roedd y weithdrefn yn gynhwysfawr ond yn hir iawn. Awgrymwyd y gallai cyflwyno siart llif helpu i wella dealltwriaeth.

Adolygwyd y weithdrefn ar gyfer 'menywod mewn oed i gael plant' yn dilyn yr arolygiad blaenorol o gymryd y materion a amlygwyd i ystyriaeth. Fodd bynnag, nodwyd fod y weithdrefn yn hirfaith bellach ac awgrymwyd y gallai cyflwyno siart llif helpu i wneud y weithdrefn yn fwy cryno ac ystyriol o ddefnyddwyr.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried cyflwyno siart llif i'r weithdrefn i gynorthwyo gydag eglurder

Optimeiddio

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r gweithredwr a'r ymarfer sicrhau y cedwir y dogn sy'n deillio o'r datguddiad mor isel ag sy'n rhesymol bosibl at y diben a fwriedir.

Gweler y sylw yn yr adran â'r pennawd Gweithdrefnau a Phrotocolau am weithdrefn cyflogwr 11 (EP11) am fanylion am optimeiddio.

Pediatreg

Mae'r RhYI(DM) yn nodi y dylai'r ymarferwr a'r gweithredwr roi sylw arbennig i optimeiddio datguddiadau meddygol plant.

Nodir yn y ffurflen hunanasesu a gyflwynwyd i AGIC cyn yr arolygiad bod cyfeiriad penodol at bediatreg yng ngweithdrefnau'r cyflogwr, ond ni ellid dod o hyd i unrhyw gyfeiriadau ac eithrio'r cyfeiriad at faterion diogelu yng ngweithdrefn cyflogwr 4 (EP4) Gweithdrefn ar gyfer Gwirio Beichiogwydd.

Mae angen adolygu'r protocolau pediatrig cyfredol hefyd i fyfyrion ar ehangu'r ystodau oedran sydd ar gael yn ogystal ag ystyried gwybodaeth maint penodol o ran pwysau, taldra neu BMI

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd sicrhau y gwneir cyfeiriadau priodol yn y gweithdrefnau at optimeiddio datguddiadau meddygol plant.

Gwerthuso clinigol

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau y cofnodir gwerthusiad clinigol o bob datguddiad meddygol yn unol â'r gweithdrefnau ysgrifenedig.

Mae'r weithdrefn yn nodi y bydd cofrestrydd neu radiologydd yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar RADIS ar gyfer pob archwiliad radiograffig, ond nid yw'n cyfeirio at radiograffwyr adrodd.

Awgrymwyd hefyd yn ystod y trafodaethau y byddai'n cael ei ystyried yn arfer da sicrhau bod gwerthusiadau clinigol yn cael eu cwblhau gan staff nad ydynt yn staff radioleg (er enghraifft, Ymarferwyr Nyrsio ym mhob adran) sy'n gwerthuso ac yn trin ac yna'n cofnodi hyn yn nodiadau'r claf efallai.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd adolygu gweithdrefn y cyflogwr i sicrhau radiograffwyr adrodd ac unrhyw grwpiau staff eraill sy'n gwerthuso'n glinigol.

Archwiliadau clinigol

Mae'r RhYİ(DM) yn nodi y dylai gweithdrefnau cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol fel sy'n briodol.

Roedd tystiolaeth y cynhelir archwiliadau clinigol, er nad oedd hyn wedi'i gofnodi yn unrhyw un o'r gweithdrefnau a welwyd.

Er nad oes unrhyw ofyniad yn y RhYİ(DM) i fod â gweithdrefn ar waith ar gyfer archwilio clinigol, mae Rheoliad 8 yn nodi y dylai'r sefydliad wneud darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol. Nid oedd unrhyw beth wedi'i gofnodi yn y gwaith papur i ni graffu arno sy'n cyfeirio at hyn, ond gwelsom agenda cyfarfod sy'n dangos bod archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal.

Hefyd, roedd tystiolaeth yn yr adran bod archwiliadau adrannol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'r ffaith fod y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i ddylanwadu newid.

Argymhelliad

Dylai'r Bwrdd lechyd ystyried datblygu a chyflwyno gweithdrefn sy'n disgrifio'r broses ar gyfer nodi a chynnal archwiliadau clinigol.

Cyngor arbenigol

Mae'r RhYŷ(DM) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cymryd rhan fel sy'n briodol ym mhob datguddiad meddygol radiolegol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi penodi Cynghorydd Diogelwch Ymbelydredd (RPA) ac mae cytundebau lefel gwasanaeth ar waith ar gyfer pedwar Arbenigwr Ffiseg Feddygol (MPEau). Mae'r RPA yn aelod o'r Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd ac ar gael ar gyfer cyngor dros y ffôn. Mae hefyd yn cynghori ar unrhyw brosiectau adeiladu a gynllunnir, yn darparu sicrwydd ansawdd ac yn cynghori ar optimeiddio protocol.

Offer

Mae'r rheoliadau'n nodi y dylai'r cyflogwr gadw stocrestr gyfredol o offer ar gyfer pob gosodiad radiolegol.

Mae cofnodion offer ar waith ar ffurf stocrestr.

Cafwyd trafodaethau am ba mor briodol yw offer o ran cadernid o ystyried faint o waith sy'n cael ei wneud gan un sganiwr CT yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Fodd bynnag, nodwyd effeithlonrwydd trwybwn CT gennym.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y tîm rheoli'n ddidwyll ac yn agored am yr holl faterion i ni eu trafod â nhw yn ystod yr ymweliad. Derbyniwyd ganddynt fod llawer o faterion a amlygwyd mewn arolygiad blaenorol yn dal i fod heb eu cyflawni. Gofynnwyd am gyngor gan y tîm arolygu yng nghyswllt nifer o faterion a derbyniwyd beirniadaeth adeiladol mewn ffordd gadarnhaol. Roedd yn amlwg bod yr holl staff i ni siarad â nhw ar adeg yr ymweliad yn ymroddedig ac yn frwdfrydig am y gwaith maent yn ei wneud ac roeddent hwythau hefyd yn ddidwyll ac agored yn eu trafodaethau gyda ni.

Un o'r materion a amlygwyd gennym fel pryder sylweddol oedd y diffyg cynnydd a wnaed o ran hyfforddiant. Mae'r RhYI(DM) yn ei gwneud yn ofynnol i gofnodion fod ar waith ac yn gyfredol. Prin oedd y dystiolaeth bod cynnydd wedi ei wneud o ran y camau y cytunwyd arnynt yn yr arolygiad blaenorol ac a ddylai fod wedi'u cwblhau erbyn mis Mawrth 2013.

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaid, mae'n bwysig bod yr uwch dîm rheoli'n cyflawni ei gyfrifoldeb o ran sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gefnogi a'i gwblhau.

Hyfforddiant

Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol bod pob ymarferwr a gweithredwr wedi'i hyfforddi'n briodol ar gyfer y tasgau a gyflawnir a bod y cyflogwr yn cadw cofnodion cyfredol o'r hyfforddiant hwn.

There were no comprehensive or completed training records in place throughout the six hospitals. There was no documentation identifying entitlement or scopes of practice for the staff groups.

Ni welwyd unrhyw gofnodion hyfforddiant ar gyfer radiolegwyr ar adeg yr arolygiad. Fe'n hysbyswyd y byddai gan radiolegwyr gofnodion hyfforddiant offer ar gyfer darnau newydd o offer yn unig ac na fyddai ganddynt gofnodion ar gyfer darnau o git hŷn. Mae'n bwysig bod yr uwch reolwyr yn dangos eu cyfrifoldeb i sicrhau y cwblheir y gwaith hwn yn brydlon gan nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliad hwn o hyd er iddynt gael eu hysbysu'n flaenorol o'r hyn sy'n ofynnol. Roedd offer fflworosgopeg ar gael fodd bynnag ac nid oedd unrhyw gofnodion hyfforddiant radiolegwyr ar gyfer hwn er ei fod yn newydd.

Trafodwyd ar y pryd sut mae'r tîm yn gwybod bod pob grŵp staff, gan gynnwys radiograffwyr a radiolegwyr yn cael eu hyfforddi ac yn gymwys, gan gynnwys yr unigolion hynny sy'n cynorthwyo'r ysbytai cymuned os nad oes cofnodion

wedi'u cwblhau ar gael. Adolygwyd y cofnodion ar gyfer staff un o'r safleoedd eraill ar y diwrnod ond nid oedd y rhain wedi'u dyddio na'u llofnodi.

Roedd y tîm wedi datblygu cofnodion sefydlu a phreceptoriaeth newydd ers yr arolygiad diwethaf, sy'n ddogfen dda, ond fe'n hysbyswyd ar adeg yr ymweliad nad oedd y rhain yn addas at y diben mwyach ac nad ydynt yn cael eu cwblhau.

Adroddwyd bod CT y tu allan i oriau yn cael ei ddarparu ar gontract allanol gyda chymorth ychwanegol gan radiolegydd lleol ar-alwad o'i gartref ar gyfer unrhyw ymholiadau. Nid oedd y trefniant hwn wedi'i gofnodi yn unrhyw un o weithdrefnau'r cyflogwr ac mae angen ei egluro i'r staff er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth o bwy yw'r ymarferwr yn y sefyllfaoedd hyn.

Argymhelliad

Mae angen i'r Bwrdd lechyd adolygu'r dogfennau hyfforddiant ar gyfer pob grŵp staff a sicrhau bod y rhain ar gael.

Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol

Roedd y tîm arolygu'n fodlon nad oedd unrhyw achosion mawr o ddiffyg cydymffurfriad ac eithrio diffyg cynnydd gyda chofnodion hyfforddiant o ran rheoliadau ac nid oedd unrhyw bryderon arwyddocaol o ran diogelwch. Fodd bynnag, roedd yn bryder darganfod mai prin fu'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion a wnaed yn dilyn yr arolygiad blaenorol ym mis Gorffennaf 2012.

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gwblhau Cynllun Gwella (Atodiad A) i ddelio â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno eu Cynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai cynllun gwella'r bwrdd iechyd ddatgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn adran radioleg Ysbyty Brenhinol Morgannwg (ac ymweliad dilynol ag Ysbyty'r Tywysog Siarl) yn cael eu trin, gan gynnwys amserlenni. Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn gyfundrefnol ar draws adrannau / unedau eraill y bwrdd iechyd.

Caiff cynllun gwella'r bwrdd iechyd, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus ar urddas a gofal sylfaenol.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl

Ward/ Adran: Delweddu Diagnostig

Dyddiad yr arolygiad: 3 a 4 Tachwedd 2014

Cyfeiriad y Rhŷi(DM)	Argymhelliad	Camau gan y BILI	Swyddog Cyfrifol	Dyddiad Targed
Rheoliad 4(3) c a 4(6)	Lefelau Cyfeirio Diagnostig (DRLau) <p>Yn unol â'r argymhelliad blaenorol, mae angen sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig (DRLau) lleol priodol ar gyfer eu cohort cleifion. Rhagfyr 2012 oedd y dyddiad gweithredu ar gyfer cwblhau yn dilyn yr arolygiad blaenorol.</p> <p>Mae rhai DRLau lleol ar waith ond roedd yn amlwg bod cleifion yn mynd y tu hwnt i'r rhain yn rheolaidd a bod angen eu hadolygu. Mae angen cynnal archwiliad dognau ar yr ystafelloedd sy'n weddill sy'n defnyddio DRLau</p>	<p>Bydd DRLau yn cael eu hail-werthuso gyda chynghor penodol gan RPA i gynghori ar addasrwydd a defnydd o DRL</p> <p>Archwiliad pellach o osod DRL gyda RPA – caiff hyn ei ddiwygio lle cynghorir bod</p>	<p>CK PW</p> <p>AR Uwcharolygwyr</p>	Chwe 15

	<p>Cenedlaethol.</p> <p>Mae angen adolygu'r DRLau lleol sydd ar waith a sicrhau y cynhelir archwiliad dognau ar y ddwy ystafell lle defnyddir DRLau Cenedlaethol.</p>	<p>hynny'n briodol.</p> <p>Trefnwyd cyfarfod RPA cychwynnol ar gyfer 12.11.14. Cyngor ar ddefnydd / gweithrediad DRLau lleol gan RPA</p> <p>Cymryd mesuriadau pwysau cleifion i sefydlu sampl DRL lleol</p> <p>Archwiliad dognau i gael ei gwblhau ar draws ystafelloedd radioleg. Radiograffwyr yn cofnodi dognau'n Radis.</p> <p>Bydd gan bob ystafell set DRL briodol.</p>	<p>CK AR</p> <p>CJ SM Uwcharolygwyr Radiograffwyr</p> <p>CJ SM Uwcharolygwyr Radiograffwyr</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>31.1.15</p>
<p>Rheoliad 4(1) Atodlen</p>	<p>Gweithdrefnau</p> <p>Mae angen adolygu polisi cyffredin y RhYİ(DM) er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben a bod y canlynol yn cael ei wneud:</p>	<p>Polisiâu a Gweithdrefnau Cwm Taf i gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Diogelwch</p>	<p>CK PW</p>	<p>23.12.14</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Symleiddio'r cynnwys gyda gweithdrefnau'r cyflogwr • Cael gwared ar ailadrodd • Sicrhau ei fod yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd <p>Mae angen adolygu gweithdrefnau cyflogwyr ar sail yr adborth manwl a roddwyd ar adeg yr ymweliad arolygu. Mawrth 2014 yw'r dyddiad adolygu ar gyfer pob gweithdrefn.</p> <p>Mae angen rhoi proses ar waith a chydymffurfio ag ef o ran adolygu gweithdrefnau sy'n cynnwys rheoli fersiynau, dyddiadau adolygu, awdur a'r dyddiad cymeradwyo.</p> <p>Mae angen diwygio a diweddarau'r Gweithdrefnau Gweithredu Safonaol Revision a dogfennau Safbwyntiau Safonol ac egluro eu hangen a'u defnydd i'r holl staff.</p>	<p>Ymbelydredd.</p> <p>Cafwyd gafael ar ddogfennau "arfer da".</p> <p>Trefnwyd Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd ar gyfer mis Rhagfyr 2014 – bydd yn tanysgrifennu'r dogfennau diwygiedig</p> <p>Bydd Cwm Taf yn sicrhau rheolaeth dogfennau ar gyfer argraffiadau newydd o'r dogfennau.</p> <p>Drafft cyntaf o'r Gweithdrefnau a'r Polisiâu i'r COO ar gyfer ymgynghoriad yn y Bwrdd Iechyd</p> <p>Ymgynghoriad yn dod i ben / diwygio / cynnwys yr adborth.</p> <p>Safbwyntiau Safonol / Gweithdrefnau gweithredu Safonol i gael eu cyfuno a'u</p>	<p>CK</p> <p>CK</p> <p>AT CK PJ CW</p> <p>CK PJ CW</p> <p>CK PJ CW</p> <p>CJ PJ</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Trefnwyd / cwblhawyd</p> <p>23.12.14</p> <p>10.12.14</p> <p>19.12.14</p> <p>23.12.14</p>
--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------	-------------------------------------------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------

		cyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth i'r Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd		
Rheoliad 11(4) Atodlen 2	Hyfforddiant Er ein bod yn cydnabod y dull sy'n cael ei fabwysiadu i ddatblygu cofnodion hyfforddiant priodol yn seiliedig ar yr argymhelliad blaenorol, mae cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn eithriadol o araf. Disgwylwyd i hyn gael ei gwblhau ym mis Mawrth 2013 ond ceir llawer iawn o waith i'w gwblhau o hyd. Gwnaed llai o gynnydd gyda'r broses hon yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Mae'n bwysig, wrth fwrw ymlaen â'r camau uchod, bod gan bob grŵp staff, gan gynnwys staff meddygol, gofnodion hyfforddiant ar gyfer pob math o offer.	Bydd cofnodion hyfforddiant yn cael eu cwblhau ar gyfer offer radioleg ar draws Cwm Taf.	CK PW	28.2.15
		Bydd pob grŵp staff yn cael ei gynnwys.	Uwcharolygwyr Radiograffwyr / CD	28.2.15
		Cwblhau cofnodion hyfforddiant radiograffwyr	CJ SM Uwcharolygwyr Radiograffwyr	31.12.14
		Cwblhau cofnod hyfforddiant radiolegwyr	PW CJ SM Uwcharolygwyr Radiograffwyr	31.01.15
		Cwblhad cofnodion hyfforddiant i gael ei raeadru i Uwch Staff Radiograffeg	CK PJ CJ SM	5.12. 2014

Atodlen 1b	Hawl Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn yn seiliedig ar yr argymhelliad blaenorol, cadarnhawyd gan drafodaethau gyda'r staff yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg nad oeddent yn eglur am eu swyddogaethau dan RhYİ(DM). Mae angen adolygu'r weithdrefn cyflogwr ymhellach i sicrhau bod staff yn eglur am eu swyddogaethau hawl a deiliaid dyletswydd.	Bydd Gweithdrefnau Cyflogwr yn cael eu hadolygu ar gyfer y Pwyllgor Diogelwch Ymbelydredd ym mis Rhagfyr 2014	CK PW PJ	23.12.14
		Bydd gan y staff adolygiadau a dogfennau hawl unigol. Bydd hawl / swyddogaethau'n cael eu hegluro yn ystod yr adolygiad.	Uwcharolygwyr Radiograffwyr	28.2.15
		Cwblhawyd a chymeradwywyd dogfennau hawl radiograffwyr gan radiograffwyr.	CJ PJ SM Uwcharolygwyr Radiograffwyr	31.1.15
		Cwblhawyd a chymeradwywyd dogfennau hawl radiolegwyr gan staff meddygol	PW PJ CJ SM Uwcharolygwyr Radiograffwyr	28.2.15

Cynrychiolydd y Bwrdd Iechyd:

Enw (printiwch):Chris Kalinka.....

Teitl:Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Radioleg....

Llofnod:C Kalinka.....

Dyddiad:1.12.14.....